OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2018 Rhif 1036 (Cy. 218)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Rheoliadau Traffordd yr M4 (Ffyrdd Ymadael tua'r Dwyrain a thua'r Gorllewin wrth Gyffordd 28 (Cyfnewidfa Parc Tredegar), Casnewydd) (Terfyn Cyflymder 40 MYA) 2018

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *24 Medi 2018* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *27 Medi 2018* |
| *Yn dod i rym - -* | *19 Hydref 2018* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 17(2), (3) a (3ZAA) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984([1]), ac ar ôl ymgynghori ag unrhyw gyrff cynrychioliadol y tybiwyd eu bod yn briodol yn unol ag adran 134(2) o'r Ddeddf honno, yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

### Enwi, cychwyn a dehongli

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Traffordd yr M4 (Ffyrdd Ymadael tua'r Dwyrain a thua'r Gorllewin wrth Gyffordd 28 (Cyfnewidfa Parc Tredegar), Casnewydd) (Terfyn Cyflymder 40 MYA) 2018 a deuant i rym ar 19 Hydref 2018.

(2) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "traffordd yr M4" ("*the M4 motorway*") yw traffordd yr M4 Llundain i Dde Cymru.

### Gosod terfyn cyflymder

**2.** Ni chaiff neb yrru cerbyd modur yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o drafforddd yr M4 a bennir yn yr Atodlen.

(**1**) 1984 p. 27. Diwygiwyd adran 17(2) gan baragraff 28(3) o Atodlen 8 i Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p. 22), a pharagraff 25 o Atodlen 4 i Ddeddf Traffig Ffyrdd 1991 (p. 40), ac Atodlen 8 iddi. Mewnosodwyd adran 17(3ZAA) gan adran 26(2) o Ddeddf Cymru 2017 (p. 4).

**Diwygio Rheoliadau Traffordd yr M4 (Man i'r Gorllewin o Gyffordd 23A (Magwyr) i Fan i'r Dwyrain o Gyffordd 29 (Cas-bach)) (Terfynau Cyflymder Amrywiadwy) 2015**

**3.** Yn yr Atodlen i Reoliadau Traffordd yr M4 (Man i'r Gorllewin o Gyffordd 23A (Magwyr) i Fan i'r Dwyrain o Gyffordd 29 (Cas-bach)) (Terfynau Cyflymder Amrywiadwy) 2015(**2**), yn lle paragraff (r) rhodder—

"(r) Y darn o'r ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth gyffordd 28 (Parc Tredegar) o'r M4 o'r man y mae'n cysylltu â phrif gerbytffordd tua'r gorllewin yr M4 hyd at bwynt 85 o fetrau i'r de o'r pwynt hwnnw."

*Ken Skates*
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru

24 Medi 2018

(**2**) O.S. 2015/1018 (Cy. 72).

## YR ATODLEN

Rheoliad 2

### Y DARNAU O DRAFFORDD YR M4

Y darnau a ganlyn o draffordd yr M4 wrth gyffordd 28 (Cyfnewidfa Tredegar) yn Ninas Casnewydd—

(a) y ffordd ymadael tua'r gorllewin o bwynt 85 o fetrau i'r de o'i chyffordd â'r prif gerbytffordd hyd at bwynt 355 o fetrau i'r de o'r pwynt hwnnw, am bellter o 270 o fetrau; a

(b) y ffordd ymadael tua'r dwyrain o bwynt 155 o fetrau i'r gogledd o'i chyffordd â'r prif gerbytffordd hyd at bwynt 455 o fetrau i'r gogledd o'r pwynt hwnnw, am bellter o 300 metr.

---

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn sy'n gosod terfyn cyflymder uchaf o 40 milltir yr awr (yn lle'r terfyn cyflymder cyffredinol o 70 milltir yr awr a osodir ar draffyrdd gan Reoliadau Traffig Traffyrdd (Terfyn Cyflymder) 1974 (O.S. 1974/502)) ar y darnau o ffyrdd ymadael trafford yr M4 a bennir yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn diwygio Rheoliadau Traffordd yr M4 (Man i'r Gorllewin o Gyffordd 23A (Magwyr) i Fan i'r Dwyrain o Gyffordd 29 (Cas-bach)) (Terfynau Cyflymder Amrywiadwy) 2015 (O.S. 2015/1018 (Cy. 72)). Effaith y diwygiad yw dileu darn bach o'r ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth gyffordd 28 (Parc Tredegar) yr M4 o'r rhan o'r ffordd sy'n ddarostyngedig i derfyn cyflymder amrywiadwy. Mae terfyn cyflymder uchaf o 40 milltir yr awr yn gymwys i'r darn hwnnw o'r ffordd ymadael o dan y Rheoliadau hyn.

Ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol llawn ar gyfer yr offeryn hwn gan mai am resymau diogelwch ar y briffordd y'i gwneir ac ni fydd yn cael unrhyw effaith ar gostau busnes.